

Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd y penwythnos diwethaf am farwolaeth Mrs Glenys Jones (Llanefydd), un a fu'n ffyddlon ac yn weithgar yn y capel, ac a roddodd mor hael o'i hamser i wasanaethu eraill yn y gymuned. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf ag Eirian a'r teulu, a hefyd Nan a Llinos a gweddill y teulu, a gweddiwn y byddant yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth am fam, nain a hen nain annwyl iawn.
- Anfonwn ein cofion at nifer o'n haelodau sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Yn Ysbyty Glan Clwyd mae Falmai Evans (Saron), Heddwyn Davies (Llansannan), Morfudd Roberts (Llanefydd) a Beryl Jones (Nantglyn); tra bod Mair Jones (Nantglyn) a Kitty Parry (Llanefydd) yn cael gofal yn yr Inffirmari. Cofiw'n hefyd am Owen Roberts (Henllan) sy'n cael gofal yng Nghartref Bryn Derwen, Llanelwy ar hyn o bryd, a hefyd Iorwerth Martin a Carys Williams (Nantglyn) fu yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau yr wythnos ddiwethaf ond sydd bellach wedi cael dod adref. Cyflwynwn y cleifion oll a'u teuluoedd i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn profi daioni Duw yn eu cynnal a'u gwarchod y diwrnodau hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mr Selwyn Davies, Mrs Menna Owen, a Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri). Diolchwn am y gofal y maent hwythau'n ei dderbyn a gobeithiwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.

I ddo

- **CHRISTIAN VIEWPOINT** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mehefin 15fed am 7.30. "Would God forgive a Terrorist?" gyda Billy McCurrie, aelod o'r UVF yng Ngogledd Iwerddon a gafodd garchar am oes pan ond yn 17 oed. Dewch i glywed ei stori am sut y trawsnewidiodd Duw ei fywyd. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i bawb.
- **SUL Y FRO** – dydd Sul, Mehefin 28ain. "i-Grist" – oedfa'r bore yng nghwmni Dr Owain Edwards, Coleg y Bala i deuluoedd holl eglwysy'r Ofalaeth yn Llansannan am 10.30. Yna, yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i Ganolfan Byd Mari Jones yn Llanycil i gael picnic a chyfle i gymdeithasu, cyn cael tro o gwmpas y Ganolfan. Yna am 3.00, bydd "Oedfa o Fawl" a darpariaeth i'r plant yng Ngholeg y Bala dan ofal Joseff Edwards, cyn inni droi am adre.
- **CYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - **Cwrs Ieuenctid (Bl.7-11)** Gorff. 27ain – 31ain;
 - **Anrhefn Awst (8-12 oed)** Awst 10fed –13eg;
 - **Souled Out (15 oed +)** Awst 15fed –20fed.

Cysylltwch â Choleg y Bala am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Bydd gostyngiad o £20 i bob un o'r Ofalaeth fydd yn mynychu.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 7^{fed} Mehefin 2015

Darlleniad y Dydd

2 Samuel 7:12-17

(BCND tud.286 / BCN: tud.262)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da a chroeso i bawb ohonoch i oedfaon y dydd. Wrth i ni ddod at ein gilydd i addoli heddiw, beth am weddio ar i'r Arglwydd ein bendithio trwy agor ein llygaid i sylweddoli mawredd ei gariad tuag atom yn Iesu Grist? Gofynnwn fel y salmydd – 'Digona ni yn y bore â'th gariad, inni gael gorfoleddu a llawenhau ein holl ddyddiau.' (Salm 90:14)

Peth digon annifyr yw gwneud camgymeriad amlwg o flaen pobl eraill, yn enwedig pan mae'r camgymeriad hwnnw'n dysgu gwers i chi! Digwyddodd hyn i mi ychydig wythnosau yn ôl. Efallai fod rhai darllenwyr craff o'ch plith wedi sylwi i mi fod braidd yn ffôl yn rhagdybio canlyniad yr Etholiad Cyffredinol wrth ysgrifennu Llais Bro Aled ar nos Iau Mai 7fed! Yn fy mhwt ar flaen y Llais, mynegais mor allweddol fyddai cydweithio, trafod a chyfaddawdu wedi'r canlyniad gan fod pob arolwg barn yn awgrymu na fyddai unrhyw blaid yn ennill mwyafrif. O fewn ychydig oriau daeth y gwir plaen i'r golwg wrth i'r arolygon barn gael eu profi'n gwbl anghywir gyda'r Ceidwadwyr yn ennill mwyafrif yn San Steffan. Y wers i mi – paid â dibynnu ar yr hyn a ddywed y newyddion, a phaid byth â cheisio proffwydo canlyniad etholiad! Yn y byd gwleidyddol ac yn ein bywydau ni, mae gair pwy y gallwn ddibynnu arno yn ystyriaeth bwysig. Ond beth am Air ac addewidion Duw? Yn ein darlleniad ar y cyd o 2 Samuel 7 cawn glywed yr addewid mawreddog a roddodd Duw i'r brenin Dafydd. Mae Duw yn datgan y bydd teulu Dafydd yn teyrnasu am gyfnod hir, yn wir aiff mor bell â dweud y byddai un o blant Dafydd yn teyrnasu yn gadarn am byth. Braint hyfryd i ni yw edrych ar weddill y Beibl a sylweddoli fod Duw wedi cadw at ei addewid a'i gyfamod dros y canrifoedd. Iesu Grist yw Mab Dafydd, ac Ef hefyd yw'r brenin tragwyddol a ddaeth i'w fyd i achub ei bobl. Bloeddiodd Bartimeus, y cardotyn dall, ddwywaith wrth i Iesu basio heibio "Fab Dafydd, trugarha wrthyf" (Marc 10:47-48) gan ddangos ei fod yn barod i ddibynnu'n llwyr ar Iesu yn ei angen mawr. O ganlyniad, cafodd ei iacháu ac ymatebodd trwy ganlyn Iesu. Tybed ydym ni'n barod i ddibynnu ar Air Duw trwy ymddiried yn y brenin Iesu fel y gwnaeth Bartimeus? Peidiwn ag oedi rhag dod at Iesu – mae ffyddlondeb yr Arglwydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb ar y rhai sy'n ei ofni (Salm 103:17). Cofiw'n eiriau Pedr Fardd: 'Cyfnewidiol ydyw dynion a siomedig yw cyfeillion; hwn a bery byth yn ffyddlon, pwy fel efe!'

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 7^{fed}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Rhodri, a bydd Aneurin yn pregethu.
- Gwener 12^{fed}
– Sadwrn 13^{eg}
- **Penwythnos Merched** yn y Bala. Cysylltwch â'r Coleg i gael ffurflen gofrestru: colegybala@ebcpcw.org.uk / 01678 520565.
- Sul nesaf – 14^{eg}
- **Cymanfa Ganu Annibynwyr Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Lôn Swan, Dinbych am 2.30. Cymanfa o emynau plant ac oedolion o Ddetholiad 2014-15. Arweinydd: Nia Evans, Talwrn. Croeso cynnes i bawb.
 - **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 7^{fed}
- Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 9^{fed}
- Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 14^{eg}
- Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Cynhelir 'WEDI'R OEDFA' yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.30 yng nghwmni Côr Bodwrog, Ynys Môn. Croeso i bawb.

Llansannan

- Sul yma – 7^{fed}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Sul nesaf – 14^{eg}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn ystod yr oedfa bydd Nansi Grace, merch fach Darryl a Helen yn cael ei bedyddio. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 7^{fed}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf – 14^{eg}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 7^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Sul nesaf – 14^{eg}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 7^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 14^{eg}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 7^{fed}
- Bydd Mr John Hughes yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 14^{eg}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yno am 2.00.

Dalier Sylw

- Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Mathew 7:15-20 (BCND tud.7 / BCN: tud.7)